

Cyngor Sir Caerfyrddin: Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol 2024-2030

Adroddiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol

EBRILL 2024

Paratowyd gan:

"Arcadis Consulting (UK) Limited"

Tŷ Hodge

Ystafell 4D, Pedwerydd Llawr

114-116 Heol Eglwys Fair

Caerdydd

CF10 1DY

Paratowyd ar gyfer:

"Carmarthenshire County Council"

Ein Cyfeirnod:

103011935

Rheoli Fersiynau (dewisol)

Fersiwn	Adolygiad Rhif	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad	Adolygwyd gan
1.0	01	11/04/2024	Fersiwn cyntaf i'r cleient	ST

Paratowyd yr adroddiad hwn dyddiedig 11 Ebrill 2024 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r penodiad dyddiedig 13 Mawrth 2024 (y "Penodiad") rhwng y Cleient ac ("Arcadis") at y dibenion a nodir yn y Penodiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni chaiff unrhyw unigolyn/unigolion arall/eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn na'i gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath ar yr adroddiad gan unrhyw drydydd parti arall.

Cynnwys

Acronymau a Byrfoddau	5
1 Rhagarweiniad	1
2 Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol	2

Tablau

Tabl 1 Sefydlu a allai'r LFRMS gael effaith arwyddocaol debygol ar yr amgylchedd, yn unol â meini prawf 'effaith arwyddocaol' yn ôl Atodlen 1 o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol	5
---	---

Ffigurau

Ffigur 1 Canllaw Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol ³	3
Ffigur 2 Cymhwyso'r gyfres o gwestiynau o Ffigur 1 i sgrinio'r LFRMS	4

Acronymau a Byrfoddau

Acronymau a Byrfoddau	Diffiniad
CaRR	Cofrestr Risgiau Cymunedol
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
FCERM	Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol
FRMP	Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd
LFRMS	Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol
LLFA	Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
EAD	Effaith Arwyddocaol Debygol
NPPF	Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol
ABA	Ardal Basn Afon
ARhR	Awdurdod Rheoli Risg
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol

1 Rhagarweiniad

Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol: Cymru

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010¹ (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 o Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru gynhyrchu Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (LFRMS). Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yng Nghymru (y Strategaeth Genedlaethol) yn nodi bod dros 245,000 eiddo ledled Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda bron i 400 eiddo hefyd mewn perygl o erydu arfordirol. Cyhoeddodd Cyngor Sir Gaerfyrddin ei LFRMS cyntaf ym mis Mai 2013, a oedd yn pennu ei ddull cyffredinol o reoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae ail LFRMS bellach yn cael ei ddrafftio, ac felly hefyd ail fersiwn o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) ar wahân.

Mae LFRMS yn ddogfen strategaeth lefel uchel; mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygu mesurau penodol, a gwneud penderfyniadau, sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd lleol. Nod Cyngor Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo dull cyfannol wrth gyflwyno buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

Paratowyd Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar gyfer yr LFRMS cyntaf. Yn dilyn yr Adroddiad Cwmpasu, comisiynodd Cyngor Sir Gaerfyrddin y gwaith o baratoi Adroddiad Amgylcheddol (Mawrth 2013). Roedd Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn tynnu sylw at effaith arwyddocaol debygol y strategaeth ar yr amgylchedd ac yn rhoi cyngor ynghylch dewisiadau amgen rhesymol neu fesurau ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Asesodd Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol y mesurau posibl i'w hystyried, ond nodir mai dim ond fel rhan o'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd manwl y mae'r rhain i gael eu gweithredu. Felly, mae Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn nodi bod y wybodaeth i wneud asesiad yn ei herbyn yn gyfyngedig. Felly, nid oedd modd pennu arwyddocâd effeithiau.

Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Sir Gaerfyrddin 2024-2030

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae angen i'r LFRMS fynd i'r afael â pherygl llifogydd sy'n deillio o ffynonellau lleol yn unig. O dan y Ddeddf, diffinnir ffynonellau llifogydd lleol fel a ganlyn:

- Dŵr wyneb ffo;
- Dŵr Daeiar; a
- Chyrsiau dŵr cyffredin gan gynnwys unrhyw lynnoedd, pyllau neu gyrff dŵr eraill sy'n llifo i gwrs dŵr cyffredin.

Mae'r LFRMS yn canolbwyntio ar y ffynonellau lleol hyn o berygl llifogydd, ond gan fod gan Sir Gaerfyrddin dros 90km o arfordir, ystyriwyd y peryglon cysylltiedig hefyd.

Nod yr LFRMS yw lleihau'r perygl o lifogydd lle bo hynny'n bosibl, yn ogystal â meithrin mwy o allu i wrthsefyll llifogydd pan fydd yn digwydd.

Mae'r LFRMS hon yn cynnwys y cydrannau allweddol canlynol:

- Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd
- Amcanion strategol Sir Gaerfyrddin, sy'n cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol
- Asesiad strategol o berygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin ar lefel ardal basn afon

¹ Ar gael yn: [Flood and Water Management Act 2010 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk) [Cyrchwyd: 19/03/2024]

- Mesurau cyffredinol i reoli perygl llifogydd ar draws Sir Gaerfyrddin
- Cyllid a blaenoriaethu
- Monitro cynnydd wrth gyflawni'r LFRMS

2 Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'n ofynnol i rai mathau o ddogfennau cynllunio fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ofyniad cyfreithiol a nodir yn Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004² (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol). Asesiad Amgylcheddol Strategol yw'r broses sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyriaethau amgylcheddol gael eu hintegreiddio'n llawn wrth baratoi cynlluniau a rhaglenni cyn iddynt gael eu mabwysiadu'n derfynol. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol yn offeryn a ddefnyddir yn rhyngwladol i wella perfformiad amgylcheddol cynlluniau fel y gallant gyfrannu'n well at ddatblygu cynaliadwy.

Mae LFRMS Sir Gaerfyrddin 2024-2030 wedi cael ei sgrinio i benderfynu a oes angen cymhwyso'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Diben yr adroddiad hwn yw dogfennu'r penderfyniad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Rhaid i Awdurdodau Cyfrifol wneud gwaith sgrinio i benderfynu a yw cynllun neu raglen yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, ac felly a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan y Rheoliadau. Mae Atodlen 1 o'r Rheoliadau yn rhestru meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol effeithiau amgylcheddol cynlluniau neu raglenni. Rhaid i'r Awdurdod Cyfrifol sicrhau bod ei gasgliadau ar benderfyniad a wnaed ganddo ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys rhesymau dros beidio â gofyn am Asesiad Amgylcheddol Strategol. Wrth ffurfio barn ynghylch a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol yn yr achosion hyn, rhaid i Awdurdodau Cyfrifol ymgynghori â'r Cyrff Ymgynghori. Yn yr achos hwn, Cyngor Sir Gaerfyrddin yw'r corff cyfrifol, a'r Awdurdod Cyfrifol fydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Dull Sgrinio


Daw **Ffigur 1** o 'Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol' a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn 2005³. Mae'n darparu canllaw siart llif i benderfynu a yw cynllun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gofyn am gymhwyso Asesiad Amgylcheddol Strategol, yn unol â'r Gyfarwydddeb (Rheoliadau 2004 sy'n dal yn berthnasol yn y DU). Caiff y gyfres o gwestiynau yn y siart llif eu cymhwyso i'r LFRMS yn **Ffigur 2**.

Dylid cymhwyso Asesiad Amgylcheddol Strategol lle gallai cynllun arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae **Tabl 1** yn cymhwyso gwahanol ddiffiniadau, meini prawf a nodweddion 'effaith arwyddocaol', yn unol â'r Rheoliadau, i benderfynu a allai'r strategaeth gael effaith o'r fath.

² Ar gael yn: [The Environmental Assessment of Plans and Programmes Regulations 2004 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk) [Cyrchwyd: 19/03/2024]

³ Ar gael yn: [A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) [Cyrchwyd: 19/03/2024]

Figur 1 Canllaw Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol³



Ffigur 2 Cymhwyso'r gyfres o gwestiynau o Ffigur 1 i sgrinio'r LFRMS

1. A yw'r PP yn ddarostyngedig i gael ei baratoi a/neu fabwysiadu gan awdurdod cenedlaethol, rhanbarthol neu leol NEU ei baratoi gan awdurdod i'w fabwysiadu trwy weithdrefn ddeddfwriaethol gan y Senedd neu'r Llywodraeth? (Erthygl 2(a)).

Ydy. Bydd y strategaeth yn cael ei mabwysiadu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, er ei bod yn annhebygol o fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio.

2. A yw'r PP yn ofynnol gan ddarpariaethau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weinyddol? (Erthygl 2(a)).

Ydy. Ceir gofyniad deddfwriaethol i baratoi'r LFRMS. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru, ddatblygu, cynnal, cymhwyso a monitro LFRMS.

3. A yw'r PP wedi'i baratoi ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, telathrebu, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir, AC a yw'n gosod fframwaith ar gyfer caniatáu datblygu prosiectau yn y dyfodol yn Atodiadau I a II i'r Gyfarwydddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol? (Erthygl 3.2(a)).

Ydy. Mae'r LFRMS wedi'i baratoi'n bennaf at ddibenion rheoli risg, ond mae ganddi gysylltiadau cryf â 'chynllunio gwlad a thref' a 'defnydd tir'. Mae'r LFRMS yn ddogfen strategaeth lefel uchel ac mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygu mesurau penodol, a gwneud penderfyniadau, sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd lleol.

5. A yw'r PP yn pennu'r defnydd o ardaloedd bach ar lefel leol NEU a yw'n fân addasiad o PP yn ddarostyngedig i Erthygl 3.2? (Erthygl 3.3).

Ydy. Mae'r LFRMS yn cynnwys asesiad strategol o berygl llifogydd ar lefel ardal basn afon ac mae'n nodi mesurau (h.y. targedau lefel ganolig) i reoli hyn. (Wedi'i lywio gan yr LFRMS, mae FRMP ar wahân/annibynnol yn canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd mewn mwyaf o berygl llifogydd ym mhob ardal basn afon ac yn rhoi manylion ar sut y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r perygl llifogydd hwnnw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.)

Nac ydy. Nid yw'r LFRMS yn addasu'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, sy'n ddarostyngedig i Erthygl 3.2.

8. A yw'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd? (Erthygl 3.5).

Nac ydy, gweler Tabl 1. Mae'r LFRMS yn pennu dull cyffredinol Cyngor Sir Caerfyrddin o reoli perygl llifogydd yn y sir, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y cyngor.

Nid oes angen cymhwyso Asesiad Amgylcheddol Strategol i LFRMS Cyngor Sir Caerfyrddin

Tabl 1 Sefydlu a allai'r LFRMS gael effaith arwyddocaol debygol ar yr amgylchedd, yn unol â meini prawf 'effaith arwyddocaol' yn ôl Atodlen 1 o'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol

Meini Prawf Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol	Ymateb	A oes effaith arwyddocaol debygol?
1. Nodweddion cynlluniau a rhaglenni, gan ystyried yn benodol:		
1a) I ba raddau y mae'r cynllun neu'r rhaglen yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau a gweithgareddau eraill, naill ai o ran lleoliad, natur, maint ac amodau gweithredu neu drwy ddyrannu adnoddau.	Mae'r LFRMS yn pennu'r dull cyffredinol o reoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygu mesurau penodol, a gwneud penderfyniadau, sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd lleol ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, nid yw'r LFRMS yn dyrannu unrhyw dir at ddibenion penodol gan gynnwys tir ar gyfer lliniaru llifogydd neu amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain.	Nac oes
1b) I ba raddau y mae'r cynllun neu'r rhaglen yn dylanwadu ar gynlluniau a rhaglenni eraill gan gynnwys y rheiny sydd mewn hierarchaeth.	Mae amcanion yr LFRMS yn cyd-fynd â'r rheiny yn y Strategaeth Genedlaethol. Nid yw'r LFRMS yn creu polisïau newydd, ond mae'n llywio'r FRMP sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd mewn mwyaf o berygl llifogydd ym mhob Ardal Basn Afon ac yn rhoi manylion ar sut y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r perygl llifogydd hwnnw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Ni fydd yr LFRMS yn gwrthdaro â'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF), y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig presennol, nac unrhyw ddogfennau polisi cynllunio newydd.	Nac oes
1c) Perthnasedd y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer integreiddio ystyriaethau amgylcheddol, yn benodol gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy.	Nod Cyngor Sir Caerfyrddin yw hyrwyddo ymagwedd gyfannol tuag at FCERM wrth gyflwyno buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Cydnabyddir yn yr LFRMS y gellir rheoli llifogydd wrth ymateb hefyd i newid yn yr hinsawdd a gwella'r amgylchedd naturiol, e.e. drwy atebion sy'n seiliedig ar natur a rheoli llifogydd yn naturiol. Ymhellach, mae grymuso cymunedau a meithrin mwy o gydnerthedd yn themâu allweddol yn yr LFRMS. Er bod yr LFRMS yn ceisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy, bydd y broses o weithredu'r LFRMS yn digwydd trwy gyfrwng mecanweithiau eraill, ac felly ni fydd y strategaeth ei hun yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol.	Nac oes
1d) Problemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen.	Mae'r LFRMS yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy gyflwyno asesiad strategol o berygl llifogydd yn y sir i helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu'n briodol, h.y. rhoddir ffocws ar yr ardaloedd sydd mewn mwyaf o berygl, a thrwy nodi mesurau rheoli (h.y. gweithgareddau eang a ffyrdd o weithio sy'n helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei amcanion strategol). Mae'r LFRMS yn ceisio lleihau perygl llifogydd lle mae hynny'n bosibl a hyrwyddo cydnerthedd ymhlith cymunedau ac ar gyfer seilwaith. Bydd y broses o weithredu'r strategaeth yn digwydd trwy gyfrwng mecanweithiau eraill (yr FRMP), ac felly ni fydd yr LFRMS ei hun yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol.	Nac oes
1e) Perthnasedd y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer gweithredu deddfwriaeth	Datblygwyd yr LFRMS mewn cydweithrediad â'r broses gynllunio strategol a'r cynlluniau canlynol: – Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru	Nac oes

Meini Prawf Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol	Ymateb	A oes effaith arwyddocaol debygol?
gymunedol ar yr amgylchedd (e.e. cynlluniau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff neu ddiogelu dŵr).	– Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru – Cynllun Rheoli Asedau Network Rail	
2. Nodweddion yr effeithiau a'r ardal sy'n debygol o gael eu heffeithio, gan ystyried yn benodol:		
2a) Tebygolrwydd, hyd, amllder yr effeithiau ac a oes modd eu gwrthdroi.	Ni ddisgwylir i'r LFRMS arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain.	Nac oes
2b) Natur gronnoel yr effeithiau.	Mae'r LFRMS yn nodi 'cydlynw ag eraill' a 'rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd' i sicrhau bod dull cydweithredol a chynhwysfawr yn cael ei fabwysiadu. Mae'r LFRMS ei hun yn ddogfen strategaeth lefel uchel, sy'n darparu asesiad strategol o berygl llifogydd yn y sir ar lefel Ardal Basn Afon. Un o'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr LFRMS yw 'datblygu ymagwedd seiliedig ar ddalgylch at FCERM', gan felly fabwysiadu dull cyfannol. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain. Felly, nid oes disgwyl i'r strategaeth ei hun gael effaith amgylcheddol arwyddocaol.	Nac oes
2c) Natur drawsffiniol yr effeithiau.	Nid yw llifogydd o reidrwydd yn aros o fewn ffiniau siroedd. Mae'r LFRMS yn ddogfen strategol lefel uchel, a'i nod yw rheoli perygl llifogydd mewn modd cyfannol, felly ni ddisgwylir iddi arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol arwyddocaol ar draws ffiniau. Mae'r asesiad strategol o berygl llifogydd o fewn yr LFRMS yn ystyried y 'gofrestr risgiau cymunedol' (CaRR), a ddatblygwyd i ddarparu dull gwrthrychol o adnabod risgiau a blaenoriaethu gweithgarwch rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol ledled Cymru. Mae'r asesiad strategol o fewn yr LFRMS yn mabwysiadu dull seiliedig ar Ardal Basn Afon, sy'n golygu bod modd asesu symudiad naturiol dŵr yn ôl ffiniau daearyddol dalgylch neu is-ddalgylchoedd afonydd, gan alluogi dull mwy cyfannol ac integredig o reoli perygl llifogydd. Datblygwyd yr LFRMS mewn cydweithrediad â phrosesau cynllunio strategol a chynlluniau Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys y canlynol: – Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru – Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru – Cynllun Rheoli Asedau Network Rail	Nac oes

Meini Prawf Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol	Ymateb	A oes effaith arwyddocaol debygol?
2d) Y risgiau i iechyd dynol neu'r amgylchedd (e.e. oherwydd damweiniau).	Nod yr LFRMS yw lleihau nifer yr anheddau a'r busnesau sydd mewn perygl o lifogydd, felly disgwylir iddi leihau'r risg i iechyd pobl. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain. Felly, nid oes disgwyl i'r strategaeth ei hun gael effaith amgylcheddol arwyddocaol. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu gweithredu ymyriadau FCERM ochr yn ochr â strategaethau amgylcheddol Sir Gaerfyrddin fel a ganlyn ac mewn cydweithrediad â hwy: – Strategaeth coed a choetir – Strategaeth seilwaith glas a gwyrdd – Strategaeth ffosffadau a nitradau	Nac oes
2e) Maint ac ehangder gofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio).	Mae'r LFRMS yn pennu'r dull cyffredinol o reoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygu mesurau penodol, a gwneud penderfyniadau, sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd lleol ac erydu arfordirol. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain.	Nac oes
2f) Mae gwerth a bregusrwydd yr ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio oherwydd (i) nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth (ii) ddiwylliannol yn uwch na'r safonau ansawdd amgylcheddol neu werthoedd terfyn; neu (iii) ddefnydd tir dwys	Mae'r LFRMS yn cynnwys asesiad strategol o berygl llifogydd yn y sir ar lefel Ardal Basn Afon. Mae derbynyddion perygl llifogydd allweddol (gan gynnwys derbynyddion amgylcheddol a threftadaeth ddiwylliannol) sydd mewn perygl mawr o lifogydd fesul Ardal Basn Afon yn cael eu nodi a'u cyflwyno. Mae hyn yn galluogi'r FRMP ar wahân/annibynnol i ganolbwyntio ar yr ardaloedd sydd mewn mwyaf o berygl. Nid yw'r LFRMS yn dyrannu unrhyw dir at ddibenion penodol gan gynnwys tir ar gyfer lliniaru llifogydd neu amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y prosiectau a restrir yn Atodiad B yr LFRMS yn cael eu cyflwyno trwy fecanweithiau eraill, a fydd yn ddarostyngedig i'w prosesau asesu amgylcheddol eu hunain.	Nac oes
2g) Yr effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws diogelu cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol cydnabyddedig.	Fel rhan o'r asesiad perygl llifogydd strategol, mae'r LFRMS yn nodi derbynyddion perygl llifogydd allweddol (gan gynnwys nifer y safleoedd ecolegol dynodedig, Henebion Cofrestredig ac adeiladau rhestredig) sydd mewn mawr o lifogydd fesul Ardal Basn Afon. Serch hynny, ni ellir pennu effaith y LFRMS ar y derbynyddion hyn oherwydd natur gyffredinol lefel uchel y ddogfen hon.	Nac oes

Penderfyniad sgrinio

Mae'r gwaith sgrinio wedi penderfynu nad yw'r LFRMS yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynllun sy'n gofyn am gymhwyso Asesiad Amgylcheddol Strategol (**Ffigur 2**). Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn **Nhabl 1** yn dangos y byddai'r LFRMS hefyd yn annhebygol o arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

O ystyried natur yr LFRMS, h.y. darparu dull lefel uchel o reoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin i fodloni gofynion y Ddeddf, disgwylir iddi arwain at effeithiau cadarnhaol yn unig ac ni fyddai unrhyw effeithiau andwyol yn debygol. Y casgliad a gyrhaeddir felly yw nad oes angen cymhwyso Asesiad Amgylcheddol Strategol i'r LFRMS.

Ymgynghoriad

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn ar gyfer ymgynghori â'r corff statudol: Cyfoeth Naturiol Cymru.

Arcadis Consulting (UK) Limited

Ystafell 4D, Pedwerydd Llawr
Tŷ Hodge
114-116 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1DY
Ffôn: +44 (0)29 2092 6700

[arcadis.com](https://www.arcadis.com)